

Methodolegau ystyriaeth arbennig ar gyfer rhagamcanu cymwysterau llinol ac unedig sy'n seiliedig ar farciau.

Mae CBAC yn darparu cymwysterau **llinol** (rhaid i bob asesiad gael ei wneud yn yr un gyfres) a chymwysterau **unedig** (gall pob asesiad gael ei wneud mewn un neu fwy o gyfresi).

Os yw ymgeisydd yn absennol am reswm da o arholiad neu asesiad di-arholiad wedi'i amserlennu mewn cymhwyster llinol, mae CBAC yn defnyddio dull canraddau pwysol ar gyfer rhagamcanu marc cymhwyster yr ymgeisydd. Mae defnyddio'r dull hwn yn cyfrifo cyfanswm marc cymhwyster yr ymgeisydd yn seiliedig ar y canraddau pwysol cyfartalog agosaf. Mae'r pwysoliad ar gyfer y cyfartaledd yn cyfrif am y marc uchaf sydd ar gael ar bob asesiad ac unrhyw ffactorau agregu.

Enghraifft o ddull canraddau

Os oedd cymhwyster yn cynnwys 3 chydran, pob un allan o 100 marc, a phob un wedi'i bwysoli'n gyfartal ac roedd ymgeisydd wedi methu'r 3ydd cydram, am reswm da, yna bydd CBAC yn gyntaf yn cyfrifo canraddau pwysol yr ymgeisydd ar gyfer y cydrannau yr oeddent wedi'u sefyll.

Cydran 1	
Marc	Canran yn ennill y marc neu well
...	...
70	22.2%
69	23.1%
68	25.5%
67	27.8%
66	28.1%
65	29.4%
...	...

Cydran 2	
Marc	Canran yn ennill y marc neu well
...	...
58	38.3%
57	39.5%
56	40.2%
55	41.6%
54	42.6%
53	43.9%
...	...

Pe bai ein ymgeisydd yn derbyn marc o 68 ar Gydran 1 a 55 ar Gydran 2, yna cyfartaledd pwysol ei ganrannau fyddai $(25.5 + 41.6) / 2 = 33.55$. Gan gymhwysu'r gwerth canraddau pwysol hwn i'r dosraniad marciau cymhwyster a ddangosir isod, byddai ei ragamcaniad felly'n farc cymhwyster o 183, gan mai hwn yw'r marc uwch ben y canraddau pwysol. Mae marc bob amser yn cael ei dalgrynnu i fyny i'r marc llawn uwch yn hytrach na'i dalgrynnu i lawr.

Cymhwyster	
Marc	Canran yn ennill y marc neu well
...	...
185	31.8%
184	32.2%
183	33.4%
182	33.9%
181	34.5%
180	35.7%
...	...

Byddai'r radd cymhwyster yn seiliedig ar y marc cymhwyster o 183.

Os yw ymgeisydd yn absennol am reswm da ar gyfer arholiad neu asesiad di-arholiad wedi'i amserlennu mewn cymhwyster unedol, roedd CBAC yn defnyddio'r dull sgôr-z. Esbonnir y dull hwn yn [nogfen](#) y CGC sy'n amcangyfrif y marc pan fydd ymgeisydd yn absennol o arholiad.